



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 14EG IONAWR, 2016

Lleoliad

Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(Dosbarthwyd 7/01/16)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Alan Jones Evans
Sian Gwenllian
R. Hefin Williams

Elwyn Edwards
Gweno Glyn
Charles Wyn Jones
John Wyn Williams

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis
Eirwyn Williams

Eric M. Jones
Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

[*sedd wag*]

Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

1 -5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG

Cyflwyno adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg.

6. CYFLWYNIAD GAN Y TIM DYSGU A DATBLYGU

Derbyn cyflwyniad gan y Tim Dysgu a Datblygu ar y broses o ddatblygu staff di-gymraeg.

7. MWY NA GEIRIAU

Derbyn cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Busnes ar gynnydd y Grwp Tasg Mwy na Geiriau.

8. SAFONAU IAITH A PHOLISI IAITH I'R CYNGOR

6 - 49

Ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr (Democratiaeth a Chyflawni) (ynghlwm).

9. DIWEDDARIAD AR GYFARFOD GYDA CHARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

50 - 51

Ystyried adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith (ynghlwm).

10. CWYNIION IAITH

52 - 53

Ystyried adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith (ynghlwm).

PWYLLGOR IAITH DYDD IAU, 22 HYDREF 2015

Yn bresennol: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Is-gadeirydd yn cadeirio)

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Charles W. Jones, Eric M. Jones, Sion Jones, Elfed Williams, Hefin Williams a John Wyn Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

Swyddogion: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith), Garem Jackson (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Gweno Glyn.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. MATER BRYD – ENW PLAS GLYNLLIFON

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater bryd o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd bod y mater wedi codi ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor, bod y sefyllfa'n newid yn ddyddiol a'i bod yn bwysig cael safbwynt ffurfiol Pwyllgor Iaith y Cyngor ynghynt yn hytrach nag yn hwyrach.

Eglurodd y Cadeirydd y derbyniwyd cais gan y Cynghorydd Siân Gwenllian i'r pwyllgor drafod mater enw Plas Glynllifon a gwahodddwyd yr aelod i ymhelaethu ymhellach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Siân Gwenllian at adroddiadau diweddar yn y wasg ynglŷn â'r mater, gan nodi:-

- Er bod pawb yn credu bod cwmni MBI Sales, darpar brynwyr Plas Glynllifon, wedi ail-ystyried eu penderfyniad i farchnata'r plasty o dan yr enw Wynnborn, gan i'r enw ddiflannu oddi ar eu gwefan am gyfnod, bod yr enw Wynnborn yn ôl ar y wefan erbyn hyn a bod y plasty yn dal i gael ei farchnata o dan yr enw hwnnw.
- Iddi gyfarfod gyda chynrychiolydd o ochr weithredol y cwmni oedd wedi pwysleisio mai Wynnborn fyddai'r enw yn ystod y cyfnod marchnata o flwyddyn neu ddwy, ond y perygl oedd y byddai'r enw'n sefydlu'i hun yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Ei bod wedi gwneud cais am gyfarfod pellach gyda chynrychiolydd o ochr marchnata a gwerthiant y cwmni. 'Roedd Hywel Williams, AS, yn bwriadu rhoi cynnig ymlaen yn y Senedd ac 'roedd deiseb wedi cychwyn ar-lein.
- Bod y sefyllfa sydd ohoni'n tanlinellu'r angen am gynnwys cymal ynglŷn â'r Gymraeg yn Bil yr Amgylcheddol Hanesyddol sy'n cael ei ystyried gan bwyllgor o'r Cynulliad ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD

- (a) Ysgrifennu at gwmni MBI Sales i ddatgan ein safbwynt ynglŷn â'r defnydd o'r enw Wynnborn a gofyn iddynt a fyddent yn fodlon derbyn dirprwyaeth o'r Cyngor yn cynnwys yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r aelod lleol.
- (b) Paratoi datganiad i'r wasg ynglŷn â'n safbwynt.

- (c) Anfon at y Gweinidog Iaith a'r Comisiynydd Iaith.
- (ch) Cysylltu â Chadeirydd y pwyllgor yn y Cynulliad sy'n trafod Bil yr Amgylcheddol Hanesyddol i bwysu am gynnwys cymal ynglŷn â'r Gymraeg yn y bil, gan gysylltu â Chynghorau Môn a Cheredigion ar y pwynt yma hefyd, a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor nesaf, neu cyn hynny.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mehefin ac 8 Gorffennaf, 2015 (cyfarfod arbennig) fel rhai cywir.

4. ADRODDIAD YMCHWILIAD IAITH – Y GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD

- (a) Cyflwynwyd – adroddiad yr Ymchwiliad Iaith – Y Gymraeg mewn Cyfarfodydd gan Gadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Craig ab Iago, a gofynnwyd am ymateb yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg i'r argymhellion.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Grŵp Ymchwiliad am eu gwaith, gan nodi:-

- Ei fod yn croesawu'r adroddiad a bod yna elfennau cadarnhaol iawn ynddo.
- Bod yr argymhellion yn rhai y byddai'n eu dilyn, yn arbennig rhif 5, sy'n ymwneud â dylanwadu ar, nid yn unig gynghorau eraill, ond cyrff cyhoeddus hefyd, a hyderai y byddai modd gweithredu ar yr holl argymhellion o fewn chwe mis.
- Bod y gwaith gyda'r cyrff cyhoeddus yn mynd yn ei flaen drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac y gobeithid, wrth ddatblygu'r gwaith hwnnw, y byddai'r cyrff cyhoeddus sy'n rhan o'r Bwrdd yn ymrwymo i ddefnyddio'r iaith.
- Bod y gwaith o gynnal awdit i'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y Cyngor ar fin cychwyn a diau y byddai yna adroddiad yn ôl ar hynny.
- Y byddai'n fodlon cyflwyno'r adroddiad gerbron Cabinet ffurfiol gan y byddai hynny'n atgyfnerthu'r argymhellion.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Cyn ceisio dylanwadu ar gyrrff y tu allan i'r sir, bod angen dylanwadu ar gyrrff o fewn Gwynedd sy'n dal i weithredu drwy'r Saesneg, megis cynghorau cymuned a chyrff llywodraethol.
- Mai gwan oedd yr ymateb a gafwyd i'r holiadur gan y cyrff allanol, ond bod yr ymatebion i'r holiadur aelodau a swyddogion yn galonogol iawn.
- Bod yr ymchwiliad wedi cyflawni gwaith da ac wedi mynd dan groen y materion sydd angen sylw gan gyflwyno argymhellion clir i'r Aelod Cabinet.

PENDERFYNWYD derbyn argymhellion yr ymchwiliad a'u cyflwyno'n ffurfiol i'r Aelod Cabinet.

- (b) Ystyriwyd – dau awgrym ar gyfer yr ymchwiliad nesaf, sef:-

- Edrych ar ba mor weladwy yw'r iaith Gymraeg.
- Edrych ar sut mae'r gyfundrefn gynllunio yn hybu ac yn gwarchod yr iaith Gymraeg.

Nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni:-

- y byddai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, yn eu cyfarfod nesaf, yn cymryd trosolwg o'r sefyllfa o ran cynllunio a'r iaith Gymraeg, a heb ragdybio,

'roedd posibilrwydd y gallai hynny arwain at ymchwiliad ganddynt hwy maes o law.

- Y gellid anfon neges at y Pwyllgor Craffu Cymunedau i ddweud bod y Pwyllgor Iaith yn awyddus i gefnogi unrhyw waith a gyflawnir ganddynt yn y maes.

PENDERFYNWYD nodi dymuniad i edrych ar y maes pa mor weladwy yw'r Gymraeg a gweithio ar friff ar gyfer ymchwiliad. Yn y cyfamser, cynnal trafodaeth gyda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ynglŷn â beth sy'n digwydd nesaf o ran cynllunio a'r iaith Gymraeg ac awdurdodi'r swyddogion i symud ymlaen gyda'r naill neu'r llall, neu'r ddau, os yw'r capasiti yn caniatáu hynny.

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y gwaith sy'n mynd ymlaen yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yr awdit i'r defnydd o'r iaith Gymraeg, sefydlu'r ganolfan iaith newydd ym Mangor, y gwaith sy'n mynd rhagddo o ran y gweithlu dwyieithog, y Siarter Iaith, ymateb cychwynol i'r Safonau Iaith, cynllunio ieithyddol a phrosiect hyrwyddo'r iaith yn Nolgellau.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

6. DIWEDDARIAD AR SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn nodi y derbyniwyd yr Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau terfynol ar 30 Medi ac yn amgáu, er gwybodaeth, y safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn 6 mis, ynghyd â chrynodeb o'r pwyntiau gweithredu.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Nad '*dewis*' iaith ddylai'r diffiniad fod yn y Safonau, ond yn hytrach '*yr iaith mae rhywun yn arfer ei siarad*' gan ei bod yn amlwg yn syth os ydi rhywun yn siarad Cymraeg ai peidio.
- Y bydd Cyngor Gwynedd yn mynd ymhellach na gofynion y Safonau oherwydd natur ieithyddol y sir hon.
- Bod angen gloywi iaith rhai o staff Galw Gwynedd sy'n dueddol o gyfeirio at rifau a misoedd y flwyddyn, ayb, yn Saesneg.
- Bod y Safonau wedi'u hanelu at gynghorau eraill nad ydynt, yn gyffredinol, yn talu sylw priodol i'r Gymraeg, a dylid ystyried apelio yn erbyn unrhyw Safon sy'n cyfarwyddo'r Cyngor hwn i gasglu gwybodaeth er mwyn profi rhywbeth sy'n amlwg yn barod, gan fod hynny'n wastraff arian i drigolion Gwynedd ac yn tynnu adnoddau oddi wrth y gwaith o hyrwyddo'r iaith.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chyflwyno diweddariad i'r cyfarfod nesaf fydd hefyd yn cyfeirio at unrhyw apêl fydd wedi'i chyflwyno yn y cyfamser yn erbyn unrhyw Safon a dybir sy'n parhau i fod yn anghymesur neu'n afresymol.

7. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I'R ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn cyflwyno ymateb y Cyngor i'r ymholiadau pellach yn ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Blynyddol ac yn ceisio ymateb yr aelodau i'r materion canlynol a godir yn sgil yr adroddiad:-

PWYLLGOR IAITH Dydd Iau, 22 Hydref 2015

- Trefn adrodd ar gwynion iaith – argymhellid na ddylai cwynion gael eu hadrodd i'r Pwyllgor Iaith nes y bydd unrhyw ymholiadau wedi'u cwblhau ac ymateb wedi ei anfon i'r achwynydd, os yn briodol.
- Trefn cofnodi sgiliau iaith staff – gofynnid i'r aelodau ystyried i ba raddau y dylai'r Cyngor fod yn cofnodi sgiliau iaith.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Ei bod yn fuddiol i'r aelodau glywed am unrhyw gwynion iaith sydd i law ac awgrymwyd y gellid cyflwyno dau gategori o gwynion i'r Pwyllgor Iaith yn y dyfodol, sef y rhai sydd wedi eu datrys a'r rhai sydd heb eu datrys.
- Er gwaethaf yr hyn mae'r Safonau'n ei ddweud, rhaid sefydlu trefn o gofnodi sgiliau iaith staff sydd â chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosib' yn perthyn iddi, ond sydd, ar yr un pryd, yn rhoi darlun synhwyrol i ni o alluoedd ieithyddol y staff, e.e. ydynt yn medru cynnal sgwrs, ysgrifennu adroddiad, ayb, yn Gymraeg, ac efallai bod angen gofyn hefyd pa mor gefnogol ydynt i'r Gymraeg.
- Y gallai'r wybodaeth ynglŷn â sgiliau a'r wybodaeth mwy meddal ynglŷn ag agwedd, ayb, fod o gymorth i dargedu gwaith y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu, yn hytrach na bod y gwasanaeth yn ymatebol fel ar hyn o bryd.

Llongyfarchwyd y Swyddog Datblygu Iaith ar ei gwaith trwyadl yng nghyswllt y mater hwn a materion ieithyddol eraill.

PENDERFYNWYD

- (a) Derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg i adroddiad y Cyngor ac ymateb y Cyngor i'r cais am wybodaeth bellach.**
- (b) Y dylid cyflwyno dau gategori o gwynion i'r Pwyllgor Iaith yn y dyfodol, sef y rhai sydd wedi eu datrys gan adrodd hefyd er gwybodaeth ar y rhai y mae'r adran yn parhau i ymchwilio iddynt.**
- (c) Y dylid edrych ar sefydlu trefn o gofnodi sgiliau iaith staff sydd â chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosib' yn perthyn iddi, ond sydd, ar yr un pryd, yn rhoi darlun synhwyrol i ni o sgiliau'r staff.**

8. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU – ADDYSG GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Craffu – Addysg Gymraeg gan Gadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Alwyn Gruffydd. Nododd:-

- Yr ymchwiliwyd i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith yr awdurdod yn ysgolion y Sir a diolchodd i'w gyd-aelodau ar y grŵp, ynghyd a'r swyddogion, fu'n gweithio'n ddyfal dros gyfnod o 6-7 mis.
- Y cyflwynwyd adroddiad drafft yr ymchwiliad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 22 Medi ac y penderfynodd y pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Aelod Cabinet Addysg, gan ofyn iddo gyflwyno adroddiad cynnydd ar y gweithrediadau ymhen chwe mis.

Cyflwynodd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg ymateb yr adran i'r adroddiad gan nodi:-

- Bod yr adran yn croesawu'r gwaith ac yn canmol ac yn cydnabod y gwaith aruthrol a gwblhawyd yn y maes hwn sy'n greiddiol i holl waith y gwasanaeth.
- Bod yr Aelod Cabinet Addysg wedi derbyn yr argymhellion a'r cam nesaf fyddai trafodaeth rhwng yr adran a'r Aelod Cabinet o ran ymarferoldeb gweithredu'r argymhellion.
- Bod y pwyllgor craffu wedi dod i lawer o'r un casgliadau â chwmni Trywydd, a gomisiynwyd i gyflawni gwaith yn y sector uwchradd.

Wrth drafod casgliadau'r ymchwiliad:-

- Cyfeiriwyd at y sefyllfa ieithyddol yn ardal Bangor yn benodol ac effaith bositif y Siarter Iaith ar agwedd plant yr ardal tuag at y Gymraeg.
- Nodwyd bod plant yn gwneud cynnydd da yn y Canolfannau Hwyrddyfodiad ond mynegwyd rhwystredigaeth bod y gyrwyr cludiant i'r plant i ac o'r canolfannau hyn yn ddi-gymraeg. Mewn ymateb, nodwyd bod y sylw hwn wedi'i wneud yn y Pwyllgor Craffu hefyd a chadarnhawyd bod y Gwasanaeth Addysg yn ymchwilio i'r mater.
- Diolchwyd i aelodau'r ymchwiliad a'r swyddogion am eu gwaith trwyadl oedd wedi arwain at gyfres o argymhellion clir a phell gyrhaeddol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

9. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law.

Gan gyfeirio at y gŵyn am ddiffyg darpariaeth Gymraeg ar wefan y bydd ysgolion yn cael eu cyfeirio ati gan y Llywodraeth i gael gwybodaeth a chyngor arbenigol yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored (gwefan OEAP), nododd y Swyddog Datblygu Iaith ymhellach:-

- Bod ymateb uniaith Saesneg yr Adran Addysg a Sgiliau'r Llywodraeth i'r gŵyn yn egluro nad oedd y Llywodraeth o'r farn bod cyfrifoldeb arnynt i dalu am gyfieithu'r adnoddau gan mai gwefan allanol ydoedd.
- Y bwriedid anfon cŵyn at y Comisiynydd Iaith ynglŷn â'r ymateb uniaith Saesneg a dderbyniwyd i'r gŵyn.

Mynegodd aelod bryder nad oedd cyfieithydd yn bresennol mewn apêl cynllunio ym Mhorthmadog ar 13 Hydref yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod cais i godi tyrbin gwynt yn Llanaelhaearn. Cytunodd y swyddogion i wneud ymholiadau.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.45 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 8

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	14 Ionawr 2016
TEITL	Safonau Iaith a Pholisi Iaith i'r Cyngor
AELOD CABINET	Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn
AWDUR	Arwel E Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni)
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno diweddariad a chopi o bolisi drafft er sylw'r pwyllgor

Y Cefndir o ran y Safonau Iaith

1. Ar hyn o bryd, mae ymrwymadau statudol y Cyngor o ran yr Iaith Gymraeg wedi eu crynhoi yng Nghynllun Iaith Statudol y Cyngor ond, fel y gwyr aelodau'r Pwyllgor Iaith, mae'r drefn o gynlluniau iaith statudol yn dod i ben gyda chyflwyno'r Safonau Iaith newydd o 1 Ebrill, 2016 ymlaen.
2. O hynny ymlaen, byddwn yn adrodd yn flynyddol ar y Safonau Iaith, yn hytrach nag ar gynllun iaith.
3. Fel Cyngor, cawsom gyfle i gyflwyno sylwadau ar y Safonau drafft a gyflwynwyd gan y Comisiynydd Iaith a chyflwynwyd amryw o sylwadau. Trwy hyn oll, pwyslais y Cyngor oedd mynegi cefnogaeth gyffredinol i'r Safonau Iaith ac i'r ymdrech i sicrhau cysondeb a defnydd o'r iaith ar draws holl gynghorau Cymru.
4. Wrth gwrs, mae ein sefyllfa yn wahanol i'r rhan fwyaf o gynghorau Cymru, gan fod ein trefniadau presennol yn golygu fod yr Iaith Gymraeg eisoes yn cael ei defnyddio fel ein iaith weinyddol fewnol ac yn cael ei defnyddio yn naturiol yng ngwaith dyddiol y Cyngor.
5. Felly, gan fod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio â'r mwyafrif o Safonau, ni ragwelwyd problem enfawr, er bod rhai goblygiadau gweinyddol wrth gofnodi manylion yng nghyswllt rhai o'r Safonau.
6. Mewn ymateb i'r sylwadau a gyflwynwyd gennym, fe wnaeth y Comisiynydd Ieithau'r gofyn arnom trwy ddileu 14 o'r Safonau drafft y bu ymgynghori arno pan yn cyhoeddi'r Safonau terfynol arnom.

7. O gael cyfle i edrych ar y Safonau terfynol (y mae copi ohonynt ynghlwm fel Atodiad 1), a gan fod rhai o'r Safonau drafft mwyaf trafferthus wedi eu dileu, y bwriad yw peidio ag apelio yn erbyn unrhyw un o'r Safonau sydd wedi eu gosod arnom

Yr Angen am Bolisi

8. Mae Safon 98 yn gofyn i ni "ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso'r Gymraeg".
9. Yn eu hanfod, fodd bynnag, yr hyn a wna'r Safonau yw gosod isafswm ar gyfer darpariaeth Gymraeg, a'r gwirionedd yw fod yr isafswm a osodir yn rhy isel i gyfarch uchelgais Cyngor Gwynedd ar gyfer yr Iaith Gymraeg mewn sawl un o'r meysydd. Pwysleisiwyd sawl tro wrth drafod y Safonau drafft nad oedd dymuniad iddynt wanhau sefyllfa bresennol y Cyngor.
10. Felly, daethpwyd i'r casgliad bod angen dogfen sydd yn fwy na dim ond polisi mewnol, ac a fydd yn cyfarch uchelgais y Cyngor ar gyfer y Gymraeg drwy ein gwasanaethau i gyd.
11. Bydd modd defnyddio'r polisi hwn wedyn fel tystiolaeth i gadarnhau gweithrediad rhai o'r Safonau yng ngwaith y Cyngor.
12. Cyflwynir polisi drafft ynghlwm fel Atodiad 2 i'r papur hwn. Mae'r ddogfen bolisi fel y'i cyflwynir yn ddiweddar iad o'n Cynllun Iaith presennol a felly nid oes unrhyw newid o sylwedd yma.
13. Fodd bynnag, mae rhai materion sydd yn teilyngu sylw penodol a ceisir arweiniad arnynt cyn bod y polisi yn cael ei ddatblygu ymhellach.

Ystyriaethau Polisi

14. Y cwestiwn cyntaf o egwyddor yw mater "dewis" neu "angen" iaith. Mewn sawl lle yn y Safonau ac yn y Cynllun Iaith, roedd cyfeiriad at ymateb i "ddewis iaith" unigolyn. Nid yw "dewis iaith" bob amser yn gydnaws â dymuniad y Cyngor i fod yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r polisi drafft sydd gerbron felly yn pwysleisio'r angen i ddelio â rhywun trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn mynd ymhellach na chynnig "dewis" yn unig.
15. Mae'r ddogfen ddrafft hefyd yn diweddarau cynnwys ein Cynllun Iaith o ran sicrhau gwelededd yr iaith Gymraeg hyd yn oed ymysg pobl ddi-Gymraeg sydd yn dewis darllen deunydd Saesneg. Mae'r prif newid yn maes Technoleg Gwybodaeth lle, bellach, mae'r polisi yn nodi y bydd yn hwylus i symud yn ôl ac ymlaen o dudalennau Cymraeg a Saesneg ar y Wefan.

16. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at yr angen i brif-ffrydio'r Iaith Gymraeg ac mae nifer o'r Safonau yn y maes polisi yn disgwyl i ni fedru tystiolaethu hynny. Gallai hynny arwain at yr angen i ddogfennu pethau mewn ffyrdd nad ydym wedi arfer â gwneud er mwyn dangos ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau Polisi. Mae creu cyfundrefn er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiwr sydd ddim , mewn gwirionedd, yn ychwanegu gwerth i bobl Gwynedd, yn groes i egwyddorion Ffordd Gwynedd. Ceisir barn y pwyllgor ar sut y dylem ymagweddu at y gofynion hyn.

Argymhelliad

17. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor Iaith ar y ddogfen ddrafft sydd ynghlwm cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn er mwyn ei fabwysiadu.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Cyngor Gwynedd – Dyddiad Dyroddi: 30/09/2015

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn 6 mis.

Tud. 9

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
1	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	30/03/2016
4	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	30/03/2016
5	Cyflenwi Gwasanaethau	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthy ch yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	30/03/2016
6	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	30/03/2016
7	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddatgan - (a) mewn gohebiaeth, a	30/03/2016

		(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	
8	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	30/03/2016
9	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	30/03/2016
10	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).	30/03/2016
12	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
13	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	30/03/2016
14	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu	30/03/2016

		galwadau yn Gymraeg.	
15	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	30/03/2016
16	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	30/03/2016
17	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	30/03/2016
18	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg).	30/03/2016
20	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.	30/03/2016
21	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyich yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	30/03/2016

22	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	30/03/2016
23	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg; ac os yw P yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid ichi gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	30/03/2016
25	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi - (a) gofyn i A a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a (b) os yw A yn eich hysbysu ei fod yn dymuno hynny, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	30/03/2016
27	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/03/2016
27A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	30/03/2016
27CH	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	30/03/2016

28	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi - (a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a (b) os yw'r unigolyn hwnnw, neu os yw pob un o'r unigolion hynny, yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	30/03/2016
30	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/03/2016
31	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	30/03/2016
32	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi - (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	30/03/2016
33	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg -	30/03/2016

		(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.	
34	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	30/03/2016
35	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	30/03/2016
36	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).	30/03/2016
37	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2016
38	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2016
40	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg.	30/03/2016

48	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2016
49	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
50	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	30/03/2016
50A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
50B	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	30/03/2016
51	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	30/03/2016
52	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar	30/03/2016

		eich gwefan.	
55	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	30/03/2016
56	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	30/03/2016
57	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.	30/03/2016
58	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
59	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	30/03/2016
60	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.	30/03/2016
61	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	30/03/2016
62	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu	30/03/2016

		yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	
63	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	30/03/2016
64	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.	30/03/2016
67	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	30/03/2016
68	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	30/03/2016
69	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	30/03/2016
70	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2016
71	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	30/03/2016

72	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	30/03/2016
72A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	30/03/2016
73	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnwyl y cyfweiliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	30/03/2016
75	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	30/03/2016
76	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	30/03/2016
77	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	30/03/2016
77A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn	30/03/2016

		perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).	
78	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnig y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	30/03/2016
80	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	30/03/2016
81	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	30/03/2016
82	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoedduswydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	30/03/2016
83	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
84	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.	30/03/2016
87	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	30/03/2016
88	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o	30/03/2016

		gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
89	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
90	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
91	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
92	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -	30/03/2016

		(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
93	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
94	Llunio Polisi	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw	30/03/2016

		wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
95	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
96	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
97	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2016
98	Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.	30/03/2016

105	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
106	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
107	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
108	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
109	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
110	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
111	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	30/03/2016
112	Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff - (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	30/03/2016
112A	Gweithredu	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff - (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	30/03/2016
113	Gweithredu	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi - (a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg,	30/03/2016

		(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	
115	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff - (a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.	30/03/2016
116	Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.	30/03/2016
116A	Gweithredu	Rhaid ichi - (a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.	30/03/2016
117	Gweithredu	Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi - (a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a (b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	30/03/2016

119	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff - (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.	30/03/2016
120	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	30/03/2016
121	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.	30/03/2016
124	Gweithredu	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	30/03/2016
126	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.	30/03/2016
127	Gweithredu	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	30/03/2016
128	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg - (a) recriwtio a chyf-weld; (b) rheoli perfformiad;	30/03/2016

		(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.	
129	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn - (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.	30/03/2016
130	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith - (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.	30/03/2016
131	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.	30/03/2016
132	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu - (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru); (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.	30/03/2016
133	Gweithredu	Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	30/03/2016
134	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich	30/03/2016

		staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	
135	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.	30/03/2016
136	Gweithredu	Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys - (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	30/03/2016
136A	Gweithredu	Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi - (a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.	30/03/2016
137	Gweithredu	Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	30/03/2016
137A	Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi - (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;	30/03/2016

		(c) gwybodaeth am eich proses gyf-weld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.	
137B	Gweithredu	Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).	30/03/2016
140	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.	30/03/2016
141	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	30/03/2016
142	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2016
143	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	30/03/2016

144	Gweithredu	Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	30/03/2016
147	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	30/03/2016
148	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
149	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	30/03/2016
150	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
151	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	30/03/2016
152	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.	30/03/2016

153	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	30/03/2016
154	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	30/03/2016
155	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
156	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch	30/03/2016

		swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
157	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer</p> <p>(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	30/03/2016
158	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p>	30/03/2016

		(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
159	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
160	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
161	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
162	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael, ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
163	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan	30/03/2016

		<p>ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	
164	Atodol - Llundain Polisi	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	30/03/2016
165	Atodol - Llundain Polisi	<p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	30/03/2016
166	Atodol - Llundain Polisi	<p>Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	30/03/2016

167	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
168	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnwyd.	30/03/2016
169	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer (i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnwyd.	30/03/2016
170	Atodol - Gweithredu	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.	30/03/2016

		<p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -</p> <p>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);</p> <p>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn -</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);</p> <p>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p>	
--	--	---	--

		(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
171	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
172	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
175	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
176	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	30/03/2016

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn blwyddyn a 6 mis.

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
145	Hybu	Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer	30/03/2017

		cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).	
146	Hybu	Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi - (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a (b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny; (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.	30/03/2017
173	Atodol - Hybu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2017
174	Atodol - Hybu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2017

Meri Huws

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 30/09/2015



POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR GWYNEDD 2016

RHAGAIR

Cyhoeddir y Polisi Iaith hwn yn unol â blaenoriaethau Cyngor Gwynedd a'r gofynion a osodir ar y Cyngor dan Safonau'r Gymraeg, Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Diben y polisi yw nodi sut y bydd y Cyngor yn mynd ati i gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaethau yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Bydd hefyd yn fodd o sicrhau cydymffurfiaeth a'r Safonau iaith.

DATGANIAD O AMCANION SYLFAENOL

- Mae hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn un o amcanion gwella Cyngor Gwynedd. Mae Cynllun Strategol y Cyngor yn datgan mai'r nod yw gweld:
 "Pobl Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, y gweithle, ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus.
 ...a...
 Gwasanaethau'r Cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg trigolion, a thrigolion yn manteisio ar y cyfleoedd hynny i ddefnyddio'r Gymraeg."
- Gweithredir yn unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan roi yr un statws a dilysrwydd i'r ddwy iaith.
- Ceisir sicrhau drwy'r polisi hwn fod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod dewis iaith y defnyddiwr yn cael ei nodi a'i barchu bob amser.
- Rhoir cyfrifoldeb ar **holl** Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.
- Mae'r y Cyngor wedi ymrwmo i Strategaeth Iaith Gwynedd, ar y cyd gyda hunaniaith, Menter Iaith Gwynedd, er mwyn hybu'r iaith a chynyddu cyfleoedd i bobl Gwynedd ddefnyddio'r Gymraeg, gyda'r nod tymor hir o gynyddu nifer y siaradwyr Gymraeg yn y sir.

- Anogir pob corff allanol i gyfathrebu gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.
- Disgwylir i unrhyw gyrrff neu fusnesau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor wneud hynny yn unol a'r Safonau a osodir ar y Cyngor ei hun. Gosodir disgwyliadau clir mewn cytundebau gwasanaeth a sicheir trefniadau monitro priodol.
- Mae'r Gymraeg yn elfen o Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymru, sef teclyn a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hwyluso'r cyswllt rhwng anghenion cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg a strwythurau Rhaglen Wella Cymru. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i'r Fframwaith ac i'r nod o brif-ffrydio'r iaith Gymraeg drwy ei holl waith a'i weithdrefnau.

SAFONAU'R GYMREG YNG NGWAITH Y CYNGOR

CYFLENWI GWASANAETHAU

Mae'r adran hon yn ymwneud a'r modd y bydd y Cyngor yn cyfarch rhai o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ac yn sicrhau bod cyfathrebu dwyieithog effeithiol gyda'r cyhoedd.

1. Gohebiaeth ysgrifenedig

- 1.1 Mae rhyddid i unrhyw aelod o'r cyhoedd ohebu a'r Cyngor yn Gymraeg neu Saesneg, ac atebir pob gohebiaeth bersonol yn yr iaith y mae'n cael ei hanfon trwy lythyr neu ebost.
- 1.2 Bydd llythyrau, ym mha iaith bynnag y bônt, yn cael eu hateb yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol, sef cydnabyddiaeth o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith, ateb llawn o fewn 15 diwrnod gwaith.
- 1.3 Ar ôl siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig ddilynol yn parhau yn yr un iaith a'r cyfathrebiad cyntaf, neu yn yr iaith a ddewiswyd gan y defnyddiwr.
- 1.4 Pan fo swyddog o'r Cyngor yn cychwyn gohebiaeth ag unrhyw unigolyn, cymdeithas neu gwmni ar ffurf llythyr safonol neu electronig, yna dylid ysgrifennu'r ohebiaeth honno yn ddwyieithog. Gellir ysgrifennu yn Gymraeg yn unig os yw'r swyddog yn gwybod bod y derbynydd yn gallu'r Gymraeg.
- 1.5 Dylid gohebu gyda chyrrff cyhoeddus a rhai wedi eu dadwladoli yng Nghymru yn y Gymraeg yn unig. Os bydd corff arall sydd yn ddarostyngedig i'r Saofnau Iaith (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru e.e.) yn gohebu yn uniaith Saesneg, dylech ofyn am gopi Cymraeg o'r ohebiaeth cyn ymateb yn Gymraeg.
- 1.6 Dylid sicrhau cywirdeb unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon. Anogir staff i ddefnyddio CySill ac i ddilyn canllawiau Cymraeg Clir.

2. Cyfathrebu dros y ffôn

- 2.1 Bydd modd i unrhyw aelod o'r cyhoedd gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg wrth gysylltu dros y ffôn.
- 2.2 Bydd pob aelod o staff rheng flaen a phob system ateb electronig awtomatig – a hynny yn y Pencadlys, swyddfeydd rhanbarth a manau cyhoeddus eraill y Cyngor - yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn y Gymraeg yn gyntaf ac yna yn y Saesneg) ac mewn ffordd groesawgar.
- 2.3 Bydd mwyafrif helaeth staff y Cyngor sydd yn derbyn galwadau ffôn uniongyrchol yn gallu delio â'r galwadau yn y Gymraeg. Os bydd y sawl sy'n galw yn siarad Cymraeg ond nad yw'r Swyddog sy'n ateb yn gallu siarad Cymraeg yn ddigon rhugl i ddelio â'r mater, dylai'r Swyddog egluro hynny a chynnig trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff fydd yn gallu ymdrin â'r mater yn llawn yn newis iaith y galwr. Mewn achosion lle bo'r swyddog sy'n ateb galwad yn ddysgwyr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg hyd eithaf eu gallu.
- 2.4 Bydd negeseuon ar holl beiriannau ateb y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg i'w chlywed gyntaf.

3. Cyfarfodydd

- 3.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bob modd i unrhyw un a wahoddir i gyfarfod gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 3.2 Os bydd rhywun yn mynychu cyfarfod sydd yn ymwneud â llesiant, ac yn dymuno trafod mater drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid** cynnal y cyfarfod hwnnw yn unol â dewis iaith yr unigolyn. Rhaid sicrhau bod unrhyw staff sy'n bresennol yn gallu'r Gymraeg, ac os nad ydynt, bod trefniadau yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn amharu o gwbl ar allu yr unigolion (a'r swyddogion) sy'n dymuno gwneud hynny i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg.. NI DDYLID newid iaith y cyfarfod er lles y swyddog.
- 3.3 Rhaid gwneud yn siŵr bod unrhyw un a wahoddir i gyfarfod yn y Cyngor yn ymwybodol bod cyfarfodydd mewnol y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid rhoi cyfle iddynt nodi a ydynt yn dymuno cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a dyletswydd swyddogion y Cyngor fydd sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael os oes angen er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn parhau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.4 Yn unol â nod y Cyngor, ceisir sicrhau bod staff dwyieithog ar gael bob amser a all gyflawni'r dasg dan sylw yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gan fod y mwyafrif helaethaf staff y Cyngor yn ddwyieithog, ni ddylid bod mewn sefyllfa o orfod newid iaith cyfarfod gyda'r cyhoedd i'r Saesneg.

4. Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 4.1 Caniateir i unrhyw un siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis, mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor, a darperir gwasanaeth cyfieithu i hwyluso hynny.
- 4.2 Pan drefnir cyfarfod, gwrandawiadau neu ymchwiliad cyhoeddus gan y Cyngor, bydd Swyddogion y Cyngor yn cyflwyno ac yn arwain drwy gyfrwng y Gymraeg a darperir cyfieithu ar y pryd os na fydd Swyddog ar gael i allu cyflwyno yn Gymraeg.
- 4.3 Bydd disgwyl i swyddogion arweiniol neu gadeiryddion unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus dynnu sylw at ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gychwyn y cyfarfod, ac annog mynychwyr i ddefnyddio'r offer er mwyn hybu dewis iaith
- 4.4 Bydd y sawl sy'n gyfrifol am drefnu'r cyfarfod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod neges yn cael ei chyfleu ar raglen, gwahoddiad, neu hysbyseb sydd ynglŷn â'r cyfarfod, i ddynodi mai Cymraeg fydd iaith y cyfarfod cyhoeddus ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael.
- 4.5 Disgwylir i unrhyw ddogfennaeth ynghlwm a chyfarfod cyhoeddus fod yn ddwyieithog.
- 4.6 Disgwylir i Swyddogion y Cyngor gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau a drefnir gan awdurdodau neu sefydliadau eraill, ac anogir nhw i ofyn am ddarpariaeth cyfieithu-ar-y-pryd os bydd angen.

5. Cyhoeddiadau a Deunydd Ysgrifenedig

(DS Mae'r rhan hwn o'r polisi yn ymwneud ag unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig cyhoeddus, sy'n cynnwys ffurflenni a deunydd esboniadol, hysbysiadau i'r Wasg, hysbysiadau cyhoeddus ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, yn ogystal â phob deunydd electronaidd)

- 5.1 Bydd yr holl ddogfennau a gaiff eu rhannu gyda'r cyhoedd yn enw'r Cyngor, boed wedi eu cynhyrchu yn fewnol neu gan gorff neu sefydliad allanol, yn rhoi yr un statws i'r Gymraeg a'r Saesneg, ond ar yr un pryd yn adlewyrchu'r ffaith mai Cymraeg yw iaith weithredol y Cyngor ac iaith naturiol cyfran haelaeth o'r boblogaeth leol.
- 5.2 Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei ysgrifennu gan y Cyngor, ac sydd wedi ei fwriadu ar gyfer defnydd y cyhoedd yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys deunydd ysgrifenedig wedi ei argraffu a denydd a gaiff eu rhannu yn electronig.
- 5.3 Os bydd Swyddogion yn rhannu deunydd ysgrifenedig gan sefydliadau eraill (naill ai ar ffurf dogfennau, neu drwy gyfeirio at ffynhonnellau eraill fel gwefannau) disgwylir i'r Swyddogion wneud pob ymdrech i sicrhau bod y deunydd hwnnw ar gael yn y Gymraeg yn ogystal a'r Saesneg. Os bydd dogfennau yn cael eu rhannu fel rhan o waith ymgynghori, ac nad yw'r

sefydliad allanol yn gallu darparu copiau dwyieithog, rhaid gwneud trefniadau i'w cyfieithu y fewnol cyn gwneud y dogfennau yn gyhoeddus.

- 5.4 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn safonol ei ffurf a'i arddull, yn y Gymraeg a'r Saesneg, y bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac eglurder. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw ddeunydd yn ddealladwy ac yn eglur i'r cyhoedd, ac yn dilyn egwyddorion Cymraeg Clir / Plain English.
- 5.5 Bydd deunyddiau fel arfer yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen (fel bo'n briodol).
- 5.6 Pe byddai rhaid, am unrhyw reswm (e.e. maint dogfen) i'r Cyngor gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un adeg, ac ar gael gyda'i gilydd ple bynnag y byddant ar gael.
- 5.7 Rhoddir y flaenoriaeth i'r Gymraeg mewn unrhyw ddeunydd, ffurflenni, posteri neu hysbysebion i'r cyhoedd. Bydd y fersiwn Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg neu'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.
- 5.8 Bydd unrhyw ddeunydd a gyhoeddir yn electronig hefyd yn dilyn y canllawiau yn y polisi hwn, ac yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd modd symud yn hwylus o'r Gymraeg i'r Saesneg, ac fel arall mewn unrhyw wefannau ac apiau a ddatblygir gan y Cyngor.
- 5.9 Bydd unrhyw arwyddion a gaiff eu gosod mewn unrhyw fan cyhoeddus sydd dan ofal y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn dilyn oddi tannodd.
- 5.10 Bydd y polisi hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw ddeunydd gan gyrrff a chwmnïau eraill a fydd o dro i dro yn cael ei arddangos yn adeiladau'r Cyngor. Yr unig eithriadau fydd mudiadau gyda'r prif amcan o hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg.
- 5.11 Bydd pob datganiad a gyhoeddir gan y Cyngor i'r wasg neu i'r cyfryngau yn gwbl ddwyieithog.
- 5.12 Bydd ymateb i ymholiadau gan y wasg neu'r cyfryngau yn cael ei anfon yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn ddibynnol ar iaith y gohebydd perthnasol.
- 5.13 Bydd yr holl ddeunydd a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth i farchnata, i hyrwyddo ac i ddenu buddsoddiad i'r ardal yn nodi a chydabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.
- 5.14 Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan neu ar ran y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog, gan gynnwys arddangosfeydd, stondinau gwybodaeth a chynadledau. Golyga hyn y bydd unrhyw waith hysbysebu, cyhoeddi neu ymchwil yn gwbl ddwyieithog.

Yr unig eithriadau i'r uchod fydd:

- (a) gweithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltedig i weithgarwch sy'n cefnogi'r iaith a diwylliant Cymraeg, e.e. Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.
 - (b) yn achos rhaglenni radio neu deledu, bydd iaith yr hysbyseb neu fwletin gwybodaeth yn dibynnu ar y sianel neu orsaf dan sylw. Yn achos sianelau a gorsafoedd a dderbynnir yng Nghymru (boed y rheiny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg), byddant yn ddwyieithog. Ar y llaw arall, yn achos sianelau a dderbynnir yn Lloegr yn bennaf, bydd unrhyw ddeunydd a ddarlledir arnynt yn Saesneg yn unig.
 - (c) llyfrynnau wedi'u hanelu'n bennaf at y farchnad tu hwnt i Gymru. Byddant yn Gymreig eu naws gyda defnydd o'r Gymraeg ynddynt. Bydd modd I unrhyw adran gael cyngor gan yr Uned Hyrwyddo Iaith ar yr angen i ddarparu yn ddwyieithog neu beidio ar y amter hwn.
 - (ch) Bydd pob hysbyseb cyhoeddus a gyhoeddir yn y wasg Gymraeg yn ymddangos yn uniaith Gymraeg.
- 5.15 Disgwylir i hysbysebion a chyhoedduswydd ar ran trydydd parti a fo'n ymddangos ar eiddo, tir neu adeilad y Cyngor ddilyn y canllawiau uchod. Lle bu cytundeb rhwng y Cyngor a pharti arall ar gyfer defnyddio eiddo, tir neu adeilad y Cyngor, bydd amod i'r perwyl hwn yn y cytundeb, yn cynnwys cyhoedduswydd cysylltiedig (e.e. posteri, hysbysebion).

6. Derbynfeydd

- 6.1 Bydd modd i'r cyhoedd gael gwasanaeth dwyieithog llawn ym mhob un o dderbynfeydd cyhoeddus y Cyngor. Mae hyn yn golygu y bydd pob cynghorydd cwsmer a chroesawydd mewn derbynfeydd canolfannau hamdden, ysgolion ac ati yn gallu cyfathrebu yn ddwyieithog.
- 6.2 Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn nerbynfeydd ac unrhyw fanau gwasanaeth cyhoeddus y Cyngor fydd yn nodi yn glir bod modd cael gwasanaeth Cymraeg er mwyn sicrhau bod cymal 1.3 o'r Polisi hwn yn cael ei weithredu yn effeithiol a naturiol.
- 6.3 Annogir, ble bo'n briodol, i staff derbynfeydd a mannau gwasanaeth cyhoeddus wisgo bathodynau neu cortynnau gwddf fydd yn galluogi'r cyhoedd i wybod lle mae siaradwyr neu ddysgwyr Cymraeg a alla roi gwasanaeth cyfrwng Cymraeg iddynt.

7. Grantiau

- 7.1 Defnyddir nawdd neu grant i sector, grŵp neu unigolyn fel un arf cyhoeddus ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn lleol. Gall hyn hefyd fod yn ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol.
- 7.2 Wrth osod grant neu nawdd i gymdeithas neu grŵp cymunedol, bydd y Cyngor yn gofyn am eglurhad ynglŷn â sut y byddent yn darparu gwasanaeth dwyieithog drwy'r nawdd gan osod telerau'n unol a gofynion y cais.

- 7.3 Bydd y Cyngor yn disgwyl i sefydliadau, mudiadau, cyrff ac unigolion sydd yn darparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned fusnes yn lleol i wneud hynny yn ddwyieithog.
- 7.4 Bydd disgwyl i fusnesau a sefydliadau ddangos ymrwymiad i'r iaith Gymraeg ac i weithredu yn unol â'r un safonau a'r Cyngor.
- 7.5 Bydd y Cyngor, trwy gynnig grantiau i fusnes, yn annog y busnesau hynny i ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel arf masnachol.
- 7.6 Bydd pob gohebiaeth yn ymwneud â dyrannu grantiau neu dendrau gwasanaethau yn cael eu dosbarthu yn Gymraeg.
- 7.7 bydd angen sicrhau bod modd cynnal unrhyw gyfweiliadau a gynhelir yng nghyswllt grantiau neu dendrau yn newis iaith yr ymgeisydd. Cyfrifoldeb swyddogion y Cyngor fydd sicrhau bod cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os bydd angen.
- 7.8 Bydd unrhyw gytundeb sydd yn ymwneud a dosbarthu grantiau i fusnesau yn cynnwys cymal fydd yn nodi polisi iaith y Cyngor a'r cyfrifoldeb sydd ar bawb i ddefnyddio'r iaith mewn ffordd adeiladol a phriodol.

8. Cyd-Ddarparu ac Allanoli Gwasanaethau

- 8.1 Mae trefniadau cyd-ddarparu a chyd-ariannu gwasanaethau, yn ogystal ac allanoli gwasanaethau, yn cael eu defnyddio fwyfwy gan y Cyngor ac yn allweddol i'r dyfodol. Wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, bydd y Cyngor yn gwarchod a sicrhau anghenion trigolion y Sir o safbwynt gwasanaethau dwyieithog.
- 8.2 Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth a gofynion y Polisi hwn, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth Cymraeg i'r cyhoedd. Byddwn yn monitro'r cytundebau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- 8.3 Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda'n cyd-ddarparwyr ac i gydweithio tuag at well darpariaeth ddwyieithog ar draws gwasanaethau.
- 8.4 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'n gweithredu ar sawl lefel ac o ganlyniad :-
 - i. Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn weithredol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Polisi iaith.
 - ii. Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth, ac mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbyn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Polisi iaith a bydd

y Cyngor yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.

- iii. Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel rhan o consortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'i Bolisi iaith.
 - iv. Pan fo'r Cyngor yn ymuno â neu ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Polsiau iaith, neu'r modd y maent yn gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn cynnig cyngor i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.
- 8.5 Gall y Cyngor gynorthwyo'r uchod, e.e. trwy gynnig cyngor ynglŷn â dwyieithrwydd, llogi offer cyfieithu.

LLUNIO POLISI

9. Polisiâu a Mentrau Newydd

- 9.1 Dylid sicrhau bod unrhyw gynlluniau, menter neu bolisiâu newydd a fabwysiedir gan y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Polisi hwn ac yn hwyluso a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Bydd cyfeiriad at y Polisi hwn mewn unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiâu o eiddo'r Cyngor lle bo hynny'n berthnasol. Hefyd gwneir asesiad o ganlyniadau ieithyddol tebygol unrhyw bolisi neu fenter newydd wrth eu llunio ac o effaith unrhyw bolisi neu fenter a fabwysiadwyd gan y Cyngor wrth fonitro'r polisi neu fenter.
- 9.2 Yn yr un modd bydd mesurau'r cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiâu a mentrau newydd ar waith. Gwneir hyn trwy sicrhau bod asesiad gwrthrychol o'r oblygiadau.
- 9.3 Bydd Rheolwyr Gwasanaethau yn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei roi i effeithiau ieithyddol posib unrhyw benderfyniadau polisi wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu addasu polisi cyfredol. Bydd asesiadau yn cael eu cynnal ble bo'n briodol i sicrhau nad yw unrhyw bolisi newydd yn cael effaith andwyol neu negyddol ar gynhaliath y Gymraeg yn y sir.
- 9.4 Bydd angen sicrhau bod unrhyw waith ymchwil neu unrhyw ymgynghoriad a gynhelir yng nghyswllt llunio polisi newydd yn rhoi sylw teg i effeithiau ieithyddol posib unrhyw benderfyniadau.
- 9.4 Bydd angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ochr yn ochr ag unrhyw fater cydraddoldeb arall wrth lunio polisiâu.

GWEITHREDU

Mae'r adran hon yn delio gyda'r modd y bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r Safonau Gweithredu ac yn mynd y tu hwnt i hynny er mwyn sicrhau bod gweinyddiaeth fewnol y Cyngor yn parhau i fod drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 10.1 Er mwyn annog hyder a gallusrwydd y gweithwyr yn y Gymraeg gweithredir

proses ddemocrataidd fewnol y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn y bydd y Gymraeg bob amser yn cael blaenoriaeth mewn gweithrediadau mewnol.

- 10.2 Bydd mewnwyd y Cyngor yn uniaith Gymraeg, a bwletinau gwybodaeth staff ar ebost yn Gymraeg. Darperir fersiwn Saesneg o'r bwletianu gwybodaeth fel atodiad i'r ebost.
- 10.3 Er mwyn galluogi'r Cyngor i weithredu yn unol â'r Polisi hwn, bydd yn ofynnol i holl staff y Cyngor allu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd at safon sy'n briodol i ddibenion y swydd er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n llawn. Mae'r Cyngor yn dymuno cydweithio gyda'i staff er cyrraedd y sefyllfa honno ac mae'n cydnabod y bydd rhaid bod yn hyblyg wrth gyrraedd y nod. Yn yr un modd mae'r Cyngor yn disgwyl i'r staff fod yn ymroddgar a chydweithredu er cyrraedd y nod hwnnw.
- 10.4 Cynigir cefnogaeth gyfieithu, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ble bynnag y bo'r angen, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw un sydd yn llai hyderus neu yn llai gallus yn y Gymraeg yn cael eu heithrio.

11. Polisiâu staff

- 11.1 Bydd unrhyw wybodaeth yn ymwneud a materion cyflogaeth a materion allweddol megis lechyd a Diogelwch ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 11.2 Bydd modd i bob aelod o staff gyflwyno cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a dylid delio ag unrhyw achos yn newis iaith yr aelod staff.
- 11.3 Bydd gan bob aelod o staff hawl i ymdrin ag unrhyw faterion disgyblu neu unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag amodau gwaith neu berfformiad drwy gyfrwng eu dewis iaith, yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

12. Hyfforddiant

- 12.1 Bydd y Cyngor yn ddarparu cyfleusterau hyfforddiant mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 12.2 Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac fe'u rhyddheir, os bydd angen, i ddysgu neu i loywi eu sgiliau. Bydd y Cyngor yn ddarparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel ac yn paratoi cyllid ar gyfer hynny.
- 12.3 Cyfrifoldeb Rheolwyr llinell fydd annog staff i fynychu hyfforddiant ac i asesu'r angen am hyfforddiant gloymi neu wella sgiliau o fewn eu timau.
- 12.4 Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith hefyd yn cael ei gynnig i'r holl weithlu, fydd yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg a hanes yr iaith.
- 12.3 Wrth ddarparu i aelodau staff ddysgu'r iaith tuag at safon sy'n briodol i ddibenion y swydd, paratwir a darperir hyfforddiant a chefnogaeth deilwng ar gyfer yr unigolyn. Bydd yr hyfforddiant hwn yn seiliedig ar asesiad manwl o'r

anghenion yr unigolion yn dilyn y penodiad i'r swydd. Sylweddolir y bydd gallu ieithyddol yn amrywio o swyddog i swyddog a bydd y Cyngor yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth eu hasesu.

- 12.4 Bydd cyfle yn ogystal i unrhyw aelod etholedig sy'n dymuno gwella eu sgiliau ieithyddol ymuno yn hyfforddiant iaith y Cyngor
- 12.5 Cyflwynir Gwobr Goffa Dafydd Orwig yn flynyddol i ddysgwyr er mwyn cydnabod ymdrech staff sy'n gwneud cynnydd arbennig yn y deuddeg mis blaenorol. Mae'r Wobr hefyd yn cydnabod gwaith a chyfraniad Mentoriaid iaith.

13. Hysbysebu Swyddi/Recriwtio

- 13.1 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i gefnogi'r Polisi Iaith hwn.
- 13.2 Wrth hysbysebu swyddi bydd y Cyngor yn datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd.
- 13.3 Penodir lefel iaith briodol i bob swydd yn y Cyngor ar gyfer anghenion y swydd honno. Bydd rhaid i ddeiliaid swyddi penodedig allu cyrraedd y gofynion ieithyddol o ddyddiad cychwyn eu cyflogaeth yn y swyddi hyn.
- 13.4 Ar gyfer swyddi eraill gall fod yn bosib i ddeiliaid swyddi ddatblygu eu sgiliau angenrheidiol i gyrraedd anghenion y swydd dros amser. Os nad yw'n bosib penodi swyddog sy'n cyrraedd y gofynion ieithyddol llawn i'r swyddi hyn, bydd y Cyngor yn ystyried a yw'n briodol penodi ymgeisydd sy'n dangos ymrwymiad i ddatblygu hyd at y lefel hon. Penodir yr ymgeiswyr hyn ar yr amod y byddant yn cyrraedd y lefel berthnasol o fewn amserlen gytunedig, mewn ymgynghoriad â'r tiwtor Cymraeg. Bydd yr amserlenni'n ymarferol, gan osod nodau cyraeddadwy, a synhwyrol, gan ystyried natur y swydd, lefel ieithyddol y swydd a sgiliau ieithyddol presennol yr ymgeisydd. Bydd hyn yn amod o'i gytundeb cyflogaeth gwaith, a bydd yn cael ei fonitro
- 13.5 Bydd y rheolwr llinell a'r unigolyn a benodwyd yn hollol ymwybodol o'r hyn a olygir gan lefel iaith y swydd, gan gyfeirio at y fframwaith iaith. Lle nad yw'r fframwaith iaith yn ddigon manwl, bydd angen gosod nodau ieithyddol sy'n cydweddu â'r lefel yn y fframwaith, ac sy'n cyd-fynd â gofynion y swydd. Gall y Swyddog Datblygu Gweithlu/Cydgysylltydd Iaith roi cymorth yma. Dylid defnyddio'r fframwaith fel sail i osod gofynion ieithyddol penodol y swydd.
- 13.6 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddwyieithog, ac eithrio:-
 - (a) Yn Uniaith Gymraeg:
Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Cymraeg.
 - (b) Yn y Gymraeg yn unig gyda nodyn esboniadol byr yn y Saesneg:

Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Saesneg am swyddi:

- Lle mae'n hanfodol i'r deiliad gyrraedd gofynion ieithyddol y swydd o ddyddiad cychwyn y swydd dan sylw.
- Lle nad yw'n hanfodol i ddeiliad gyrraedd gofynion ieithyddol y swydd o ddyddiad cychwyn y swydd; bydd hyn yn sefyll hyd nes ceir tystiolaeth sy'n dangos bod penodi swyddog sydd yn cyrraedd y gofynion ieithyddol llawn yn amhosib.

13.7 Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn ddwyieithog ond ar adegau penodi rhai na fyddant yn gallu'r Gymraeg. Disgwylir i bob Adran o'r Cyngor wneud trefniadau mewnol fel bo gohebiaeth a anfonir gan aelodau staff Di-Gymraeg yn cael ei chyfieithu cyn ei hanfon a dylid gwneud hynny fel arfer yn fewnol heb gyfeirio'r ohebiaeth i'w chyfieithu gan gyfieithwyr y Cyngor. Byddai'r cyfieithwyr ar gael i gynorthwyo fel bo'r angen gyda gohebiaeth faith, gymhleth neu dechnegol.

COFNODION

- 14.1 Mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw gwyn yn erbyn gweinyddiad ein Polisi Iaith fel tystiolaeth ynglŷn â'n perfformiad ac fel cyfle i wella
- 14.2 Byddwn yn ymdrin â phob cwyn iaith yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor
- 14.3 Yr Uned Hyrwyddo Iaith sydd â chyfrifoldeb dros fonitro cwynion iaith, ac adroddir arnynt yn rheolaidd i'r Is-Bwyllgor Iaith. Bydd yr Uned yn dilyn trefn o adrodd yn ffurfiol ar y cwynion hynny sydd wedi eu hateb yn llawn, ac yn anffurfiol am gwynion sydd yn dal i gael eu datrys.
- 14.4 Lle na adroddir cwynion yn uniongyrchol i'r Uned Hyrwyddo Iaith, bydd disgwyl i holl wasanaethau'r Cyngor gofnodi unrhyw gwynion iaith a'u hadrodd i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith, un ai wrth iddynt godi neu fel rhan o'u hadroddiad ar gyfer yr Adroddiad Iaith flynyddol
- 14.5 Bydd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Polisi Iaith hwn neu gydymffurfiaid y Cyngor gyda Safonau'r Gymraeg (2015) yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Comisynydd Iaith.

Eitem 9

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	14 Ionawr 2016
TEITL	Diweddariad ar gyfarfod gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd
AWDUR	Gwenllian Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno diweddariad i aelodau'r Pwyllgor ar y cyfarfod.

1 CEFNDIR

- 1.1 Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2015, derbyniodd y Pwyllgor Iaith gwyn am weithrediad Cartrefi Cymunedol Gwynedd o'u Cynllun Iaith a'u bwriad i hysbysebu dwy swydd uwch reolwr heb i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil hanfodol.
- 1.2 Mynegwyd pryder mawr am y mater, a chytunwyd bod angen cymryd camau pellach a dwyn perswâd ar Gynghorwyr oedd ar fwrdd CCG i ddylanwadu a rhoi pwysau.
- 1.3 Gohebwyd gyda CCG a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a gofynnwyd am gyfarfod rhwng dirprwyaeth o'r Pwyllgor Iaith a chynrychiolwyr o CCG i drafod y pryderon.
- 1.4 Yn ei ddiweddariad i'r Pwyllgor Iaith yn Ebrill 2015, adroddodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni bod y Comisiynydd wrthi'n ymchwilio i'r mater, ac y byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y mis.
- 1.5 Cyhoeddwyd adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ddiwedd Ebrill 2015. Nid oedd yr adroddiad yn fawr mwy na chofnod o'r ohebiaeth rhwng y Comisiynydd a CCG, ond roedd yn tynnu sylw at y ffaith na welodd swyddogion y Comisiynydd y dogfennau ymchwil yr oedd CCG wedi eu comisiynu i'r sefyllfa recriwtio yn y maes, ac yr oeddynt yn eu defnyddio fel sail i'w penderfyniad i beidio gosod gofynion ieithyddol. Nid oedd yr adroddiad yn nodi unrhyw argymhellion nac ymrwymadau i fonitro'r sefyllfa.
- 1.6 Aeth CCG yn eu blaen i benodi dau Uwch Reolwr di-Gymraeg, a chychwynnodd y ddau yn eu swyddi ganol 2015.
- 1.7 Tachwedd 23ain 2015, cafwyd cyfarfod gyda Ffrancon Williams, Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Yn bresennol yn y cyfarfod, ac yn cynrychioli'r Pwyllgor Iaith, roedd y Cynghorydd Eric M. Jones, y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn a Gwenllian Williams, Swyddog Datblygu Iaith Gweithleoedd.

2. CRYNODEB O'R DRAFODAETH YN Y CYFARFOD

- 2.1 Ymddiheurodd Ffrancon Williams nad oedd wedi cyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r Pwyllgor Iaith cyn hyn.
- 2.2 Amlinellodd Ffrancon Williams yr amgylchiadau oedd wedi eu harwain i'r sefyllfa, ac hefyd y camau oedd wedi eu cymryd yn y gorffennol i geisio dod o hyd i uwch reolwyr gyda'r sgiliau cywir oedd hefyd yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriodd at y gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan gwmni Trowers & Hamlins i geisio canfod pam eu bod yn cael trafferth recriwtio, ac at ymdrechion i fagu sgiliau o fewn y sefydliad ei hun. Cyfeiriodd hefyd at y camau yr oeddynt wedi eu cymryd yn fewnol i geisio sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael lle blaenllaw, gan gynnwys darparu cyfieithwyr ar gyfer cyfarfodydd mewnol a chynllun mentora.
- 2.3 Roedd cynrychiolaeth y Pwyllgor Iaith yn cydnabod yr anawsterau, gan gytuno ei bod yn mynd yn broblem gynyddol i recriwtio i rai swyddi ac mewn rhai ardaloedd penodol, ond roeddynt hefyd yn awyddus i gael mwy o sicrwydd gan CCG na fyddai'r penodiadau ym amharu yn ormodol ar allu gweddill y sefydliad i ddarparu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.4 Mynegwyd pryder hefyd nad oedd yr amod i ddysgu Cymraeg o fewn cyfnod penodol wedi ei roi fel amod cytundebol wrth benodi. Roedd hyn yn mynd yn groes i gymal 7.2.3 yn eu Cynllun Iaith eu hunain. Dywedodd y Prif Weithredwr bod deilydd un o'r swyddi eisoes yn dysgu Cymraeg a bod y llall wedi gwneud ymrwymiad anffurfiol i ddechrau dysgu yn y flwyddyn newydd.
- 2.4 Rhannodd y Prif Weithredwr strwythur staffio CCG, gan nodi bod pob un o'r rheolwyr o dan yr uwch reolwyr hyn yn gallu ac yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd swydd y Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau yn cael ei hail-hysbysebu yn gynnar yn 2016, a'r disgwyliad yw y bydd y Gymraeg yn sgil hanfodol yn y disgrifiad swydd honno.

3. SYMUD YMLAEN

- 3.1 Cytunwyd iddo fod yn gyfarfod buddiol o ran ailgychwyn ar y berthynas a'r sgwrs rhwng y ddau sefydliad, ond bod angen edrych eto ymrwymladau mwy pendant a chyfleoedd cydweithio.
- 3.2 Cytunwyd i wahodd CCG i gyfarfodydd Grŵp Gweithleoedd a Gwasanaethau Cymraeg hunaniaith. Efallai y gallai rhywfaint o waith y grŵp hwnnw fod o fudd iddynt wrth fonitro ac asesu sgiliau eu gweithlu.
- 3.3 Mynegwyd diddordeb mewn cynnal trafodaeth gyda hunaniaith am y posibilrwydd o gydweithio ar brosiect magu sgiliau dwyieithog mewn meysydd galwedigaethol.

4. ARGYMHELLION

Swyddog Datblygu Iaith Gweithle i drefnu cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn fuan yn 2016 i drafod cyfleoedd neu bryderon pellach.

Eitem 10

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	14 Ionawr 2016
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	GWENLLIAN MAIR WILLIAMS SWYDDOG DATBLYGU IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

CWYNION FFURFIOL YN ERBYN Y CYNLLUN IAITH

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Mehefin 2015	<p>Derbyniwyd cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg (cyf: 1970) ynghylch methiant honedig i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y gwyn yn ymwneud yn benodol â dogfennau yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Roedd rhestr o ddogfennau wedi eu rhoi ar wefan y Cyngor a nodyn yn hysbysu'r cyhoedd bod modd cael copiâu o'r dogfennau ar gais, ond yn Saesneg yn unig. Dogfennau technegol gan ddarparwyr allanol oedd y rhain.</p>	<p>Wedi ymchwilio i'r mater, cadarnhawyd bod y dogfennau wedi eu cynnig yn Saesneg yn unig, ond y byddent yn cael eu cyfieithu maes o law fel rhan o'r broses arferol wedi ymgynghoriad. Nid oedd yr Adran Gynllunio wedi derbyn unrhyw geisiadau am y dogfennau a restrwyd, yn Saesneg nac yn Gymraeg, ac nid oeddynt wedi eu cyhoeddi yn llawn ar wefan y Cyngor gan nad oeddynt yn ddogfennau oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Cynllun Datblygu. Roedd y rhestr wedi ei pharatoi a'i chynnig fel dogfennau gwybodaeth bellach allai fod o ddiddordeb, nid fel rhai oedd yn angenrheidiol i'r broses ymgynghori. Derbyniodd Rheolwr Cynllunio (Polisi) yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd y cyfrifoldeb am y penderfyniad i gynnwys y rhestr ar y wefan yn unig ac i beidio cynnig y dogfennau yn ddwyieithog.</p> <p>Bu gohebu cyson rhwng swyddogion y Comisiynydd a'r Uned Hyrwyddo Iaith, dros rai misoedd, ar y mater, a daethpwyd a'r mater i ben ym mis Rhagfyr 2015 heb unrhyw gamau pellach. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi torri amodau ei Gynllun Iaith gan fod y dogfennau yn rhai cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn gadarn yn ei farn nad oedd unrhyw fwriad gan yr Uned Polisi Cynllunio i gamarwain na dal gwybodaeth angenrheidiol i'r ymgynghoriad yn ôl. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i eiriad y polisi iaith newydd er mwyn sicrhau bod y canllawiau ar ddogfennau cyhoeddus yn eglur.</p>
Medi 2015	<p>Derbyniwyd cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg (cyf. 2057 – derbyniwyd 10 Medi 2015) ynghylch methiant i ddarparu Tystysgrif Marwolaeth dwyieithog ac i fethu cofnodi'r achos marwolaeth yn Gymraeg.</p>	<p>O ganlyniad i natur hynod sensitif y gwyn, ymchwiliwyd yn fanwl iawn i'r achos hwn. Cadarnhawyd nad oedd Swyddfa Gofrestru Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am anfon tystysgrifau Saesneg/dwyieithog i'r achwynydd, ond yn hytrach eu bod wedi eu cyhoeddi gan Swyddfa'r Crwner. Roedd y Swyddfa Gofrestru wedi cyhoeddi tystysgrif dwyieithog i'r achwynydd ym mis Awst 2015 (ac wedi esbonio nad oedd modd cael</p>

		<p>tystysgrif uniaith Gymraeg), ond wedi â methu cofnodi'r achos marwolaeth yn Gymraeg oherwydd cyfyngiadau a osodir ar y cofrestryddion dan y Registration of Births and Deaths (Welsh Language) Regs, 1987, a chanllawiau y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, sydd yn nodi bod rhaid nodi yr achos marwolaeth "yn union" fel y mae'n ymddangos ar dystysgrif y Crwner.</p> <p>Ymddengys bod hyn yn broblem gyffredin, gan mai dim ond un Crwner sydd yn gallu'r Gymraeg, ac felly bod yr achos marwolaeth yn cael ei nodi yn Saesneg yn amlach na pheidio.</p> <p>Anfonwyd ymateb i'r Comisiynydd, gan hefyd ofyn am unrhyw gymorth neu gyngor y gallent ei gynnig i ddylanwadu ar yr adrannau allanol hyn o'r llywodraeth sydd heb eu datganoli ond sydd yn effeithio ar allu y Cyngor i ddarparu'r gwasanaeth dwyieithog llawn y dymuna.</p>
--	--	---

CWYNION ANFFURFIOL

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Medi 2015	<p>Cyfeiriwyd (er gwybodaeth fwy na gweithrediad) atom wahoddiad uniaith Saesneg a dderbyniodd Cyngor Tref Pwllheli gan Plas Heli. Mynegwyd anfonlonrwydd cyffredinol am ddefnydd y Gymraeg yn y Plas a gwnaed ymholiad am Bolisi Iaith y Plas.</p>	<p>Cysylltwyd a Phlas Heli, a chafwyd gwybod eu bod wedi defnyddio asiantaeth allanol i farchnata'r digwyddiad dan sylw, ac nad oedd staff Plas Heli yn ymwybodol bod gwahoddiad uniaith Saesneg wedi ei anfon. Bu iddynt gysylltu a'r asiantaeth a chafodd gwahoddiad Cymraeg ei anfon o fewn ychydig ddyddiau.</p> <p>Ar fater polisi iaith ehangach Plas Heli: Nid yw'n eglur a oes gan Plas Heli bolisi iaith swyddogol neu beidio. Yn ôl y cytundeb lefel gwasanaeth a luniwyd rhwng y Cyngor a Phlas Heli, roedd disgwyl i Blas Heli lunio a mabwysiadu Polisi Iaith, ond nid ydym wedi derbyn copi er cysylltu i wneud cais dair gwaith.</p>
Rhagfyr 2015	<p>Derbyniwyd cais rhyddid gwybodaeth ynghylch Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn a gomisiynwyd gan hunaniaith. Roedd honiad yn cael ei wneud nad oedd yr ymchwil wedi ei bwysoli yn gywir ac nad oedd y Cyngor wedi derbyn cyngor ystadegydd proffesiynol ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd.</p>	<p>Anfonwyd ymateb gan yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yn nodi yn glir nad bwriad yr ymchwil oedd darparu darlun manwl cynhwysfawr, a bod y gwaith wedi cyflawni'r briff a osodwyd gan hunaniaith.</p>